adnabod AWDUR . . .

Brenda Wyn Jones

Dim ond ar ôl ymddeol y penderfynais i fynd ati o ddifrif i ysgrifennu, er i mi addasu nifer o lyfrau Saesneg i'r Gymraeg cyn hynny. Mae addasu'n hwyl ac fe ddysgais i lawer iawn am bob math o bethau diddorol – o ddeinosoriaid i farchogaeth ceffylau!

Adnabod Awdur...

Un o ardal Bethesda yng Ngwynedd ydw i ac yma y cefais fy addysg, yn ysgolion Pen y Bryn a Dyffryn Ogwen. Wedi bod yn y coleg yn Aberystwyth yn astudio Cymraeg, fe dreuliais i gyfnod yn dysgu mewn ysgolion yn Nolgellau, Caerdydd a Bodedern, cyn mynd i'r Coleg Normal ym Mangor i ddarlithio.

Dim ond ar ôl ymddeol y penderfynais i fynd ati o ddifrif i ysgrifennu, er i mi addasu nifer o lyfrau Saesneg i'r Gymraeg cyn hynny. Mae addasu'n hwyl ac fe ddysgais i lawer iawn am bob math o bethau diddorol — o ddeinosoriaid i farchogaeth ceffylau!

Mae gen i ddiddordeb mawr mewn hen chwedlau a byddaf wrth fy modd pan ar wyliau tramor yn crwydro siopau llyfrau i chwilio am chwedlau'r wlad honno. Wyddoch chi fy mod i wedi dod o hyd i stori cawr Pumlumon yn Norwy, a'r chwedl am gawr y Rhondda yn Iwerddon? Lle arall diddorol ydy'r archifdy yng Nghaernarfon, lle y bydda i'n treulio oriau yn darllen hen lyfrau lòg yr ysgolion lleol a hen bapurau newydd.

Un rheswm dros ysgrifennu *Bwli a Bradwr* oedd er mwyn i chi, blant heddiw, ddod i wybod am y dioddef a'r tlodi mawr a fu yn Nyffryn Ogwen gan mlynedd yn ôl, adeg y Streic Fawr yn chwarel y Penrhyn. Roddd y plant yn dioddef hefyd, wrth gwrs, fel y gwnaeth Guto a Defi yn y nofel. Y rheswm arall oedd fy mod yn poeni am y bwlio sy'n digwydd o hyd mewn rhai ysgolion heddiw.

Fy mhleser mwyaf, ar wahân i ddarllen, fydd cael ymweld ag ysgolion i sôn am lyfrau ac i glywed am eich diddordebau chi. Cofiwch fod pob un ohonoch yn awdur ac y bydd eich gwaith yn werth ei ddarllen, dim ond i chi wneud eich gorau.

Cyngor Llyfrau Cymru 1999

Brenda Wyn Jones

Lluniau: Martin Roberts

LLYFRAU BRENDA WYN JONES

Sachaid o Straeon 1995 (Gwasg Pantycelyn) £4.95
Casgliad o straeon byrion i'w darllen a'u mwynhau gyda phlant 6 - 8 oed.

Campau Saith Cawr 1998 (Gwasg Gomer) £4.50
Saith stori fer am saith o gewri o wahanol rannau o Gymru.

Giant Tales from Wales 1998 Addas. Ann Saer (Pont Books) £4.50
Cyfieithiad o *Campau Saith Cawr.*
(Llyfr a restrir ar restr y Book Trust yn Lloegr o gan llyfr gorau'r flwyddyn.)

Bwli a Bradwr 1998 – Cyfres Cled (Gwasg Gwynedd) £3.99
Stori am y tensiynau a fodolai ymhlith plant Bethesda, Sir Gaernarfon, adeg Streic Fawr Chwarel y Penrhyn, i blant 9 - 13 oed. Ceir dyfyniadau o lyfrau lòg ysgolion yr ardal, 1900 - 03, sy'n cyfleu rhyw syniad o'r effaith a gafodd y streic ar y gymdeithas gyfan.
(Un o dri llyfr ar restr fer Gwobr Tir Na n-Og 1999.)

A D D A S I A D A U

Mae Brenda Wyn Jones wedi addasu nifer helaeth o lyfrau gan gynnwys llyfrau Tomos y Tanc, llyfrau ar grefftau a chyfres *Story Chest*.

Rhai o'i ffefrynnau hi yw:

Noson o Aeaf gan Ruth Bell Graham (Cyhoeddiadau'r Gair) £7.95
Beibl Bach i Blant gan Pat Alexander (Cyhoeddiadau'r Gair) £9.99
Os Mêts, Mêts a *Mêts o Hyd* gan Terrance Dicks (Gomer) £3.25 a £3.50
Ennill Arian a *Colli Aur* (cyfres *Stablau'r Traeth*) £3.50